

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 15, 2016

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn

Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth Tachwedd 15, 2016 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cyngorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Mordaf Roberts, Emlyn Roberts, Meurig Ashton, Gerallt Griffith a Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau: Huw A. Evans.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Barry Jones yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 7.a.iii.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 18, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 18, 2016

Eitem 6.d. Derbyniwyd llythyr ateb (20/10/2016) oddi wrth BT yn rhoi gwybod maent wedi derbyn niferoedd o lythyrau electronig ac mi fyddant yn cysylltu â ni mor fuan ag sy'n bosib

Llythyr (28/10/2016) oddi wrth Bethan Gwanas (Evans) yn rhoi gwybod ini gysylltu â BT yn o handi. Mae Eluned Morgan wedi cytuno i ofalu am ochr 'ysgrifenyddol' y ciosg. Mae ei gŵr Richard am beintio ac addurno'r ciosg ac mae perchennog Oreira yn bwriadu gosod golau solar ynddo.

Penderfynwyd gofyn i Bethan Gwanas beth yw ei chynlllyn gweithredol ynglŷn â'r ciosg.

Eitem 10.a. Llythyr ateb (2 Tachwedd, 2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. bydd cwterydd ar Ffordd Rhiw Felen (Beach Road) yn cael sylw.

ii. mae ein cais am drych ar gyffordd Ffrwd / Ffordd Lefel, Llanfachreth wedi ei anfon ymlaen i Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn Caernarfon.

Eitem 9.a. Llythyr (1/11/2016) derbyniodd Peredur Jenkins oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith cwblhau Ffordd Lefel yn cael ei wneud wedi iddynt dderbyn amcan bris gan contractwyr. Mae disgwyl i'r gwaith cael ei gwblhau cyn diwedd Tachwedd.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (Medi 2016) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

b. Llythyr (25/10/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd rhoi eu barn ar blismona yng Ngogledd Cymru. Bydd y cyfarfod yn Canolfan Hamdden Penllyn, Bala ar Rhagfyr 7 am 6.30yh.

c. Llythyr (26/10/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd arwydd yn cael ei roi wrth Cae Defaid ar lwybr cyhoeddus.

ch. Poster (10/11/2016) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfarfod i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd y cyfarfod dan arweiniad Dafydd Iwan, Cadeirydd hunaniaith. Bydd y cyfarfod yn Canolfan Henblas, Bala ar 2 Chwefror am 6.00-8-00yh.

d. Llythyr ateb (21/10/2016) (i Eitem 10.a, yn Cofnodion Medi 27, 2016) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. maent am docio coed rhwng Pont ar Ddibyn a thop y Torrent i wella ‘visibility’ i drafnidiaeth sy'n defnyddio ffordd B4416.

ii. bydd yr Arolygwr yn asesu'r sefyllfa ynglŷn â ffordd yn y goedwig Caerdefaid, Rhydymain. Mae tyllau ar wyneb y ffordd ac maent angen eu llenwi.

iii. mae'r Adran wedi rhoi sylw i gyflwr wyneb y ffordd Bwlch Goriwaered, Llanfachreth dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r broblem yn codi oherwydd mae gan y tîrfeddianwr cyfrifoldeb i rwystro dŵr rhag rhedeg o'r tir a golchi wyneb y ffordd. Mae'r Adran yn dymuno cael gwybod pwy yw'r tîrfeddianwr i gael trafodaeth i wella'r sefyllfa.

Penderfynwyd rhoi gwybodd iddynt y tîrfeddianwyr yw Mr Idris Thomas, Nannau Home Farm, Llanfachreth, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2NG; a Mr Gerallt Griffith, Ardwyn, Cae Deintur, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YN.

dd. Llythyr (1/11/2016) oddi wrth Marie Curie Nursing. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror ‘Cais am Nawdd’.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 15, 2016

e. Llythyr (02/11/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced Dolgellau ar Tachwedd 23, 2016 am 7.00yh. Bydd Swyddogion iechyd yn bresennol yn rhoi gwybodaeth ar iechyd yn gogledd Cymru. Amgau mae Agenda, Cofnodion y pwyllgor chynhaliwyd ar Medi 26, 2016, a Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol cynhaliwyd yn Llanfair y Muallt ar Medi 16, 2016.

f. Llythyr (7/11/2016) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith tyneio a chwympo wrth Bryn Prydydd, Fridd Goch; a Pen y Bryn yn cael eu gwneud ym mis Tachwedd. Mae Roger Cotton, Dolydd; Anne Anslow, Bryn Prydydd; a Meurig Ashton wedi cael gwybod o'r gwaith.

ff. Llythyr (Tachwedd 2016) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/LB203G. Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith sydd eisoes wedi ei wneud i adfer lleoliad gwreiddiol y drws blaen; cau agoriad drws modern gyda gwaith cerrig; amnewid gwaith bloc a ffenest casment i'r adeilad allanol gyda drws ffug o'r un edrychiad a'r gwreiddiol; amnewid ffenestr fodern yn yr ystafell wely gyda ffenestr o'r un manylion ac un gyffelyb yn rhif 1; tynnu gwaith bloc ar y drychiad gogleddol a gosod drws; amnewid pwyntiad sment a phwyntiad calch. 2 Brynteg, Bontnewydd, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (2/11/2016).

ii. NP5/54/T258C. Trosi allandy i dŷ fforddiadwy a gosod tanc septig. Y Beudy, Dolgamedd Farm, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (2/11/2016).

iii. NP5/54/295B. Tynnu'r mast telathrebu 14.5m presennol a gosod polyn 15m newydd yn ei le, amnewid 1 caban offer a gosod 1 caban offer newydd. Tir yn Gwanas Fawr, Dolgellau.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 15, 2016

iiii. NP5/54/316H. Trosi garej ac anecs yn uned gwylliau hunain cynhaliol. Bryn yr Aur, Bontnewydd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Llythyr (Hydref 19, 2016) yn gofyn ini ddychwelyd yn ôl y mapiau oedd yn ymwneud ag Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Asesiad Mannau Agored.

Anfonwyd y mapiau yn ôl i'r Parc.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Gwifrau Uwchben.

Ymgynghoriad o dan Rhan 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i uwchraddio llinell drydan uwchben presennol o linell gwasanaeth i brif linell.

Tir rhwng Cefn Naw Clawdd i Tyddyn Du. Nid oes gan yr Awdurdod gwrthwynebiad i'w wneud ar y cais.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (20/10/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd swyddogion o'r sefydliad yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn Tachwedd i drafod nifer fawr o gwynion derbyniwyd am y broses archwilio allanol a gynhaliwyd gan BDO.

b. Llythyr (Hydref 2016) oddi wrth Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió wedi ailbrisió Gwerth Ardretholeiddo busnesau yng Nghymru. Mae'r wybodaeth i'w gael ar www.gov.uk/voa/revaluation

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref, 2016: £1,136.11.

ch. Balans yn y banc ar 29 Hydref, 2016: £7,198.10.

d. Llythyr (4 Tachwedd, 2016) oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd. Mae yn rhoi gwybod bydd y Cyngor yn ad-dalu rhywfaint o'r costau cynnal llwybrau cyhoeddus am 2016/17. Amgau mae holiadur i'w lennwi bydd yn ddefnyddiol iddynt wrth ystyried opsiynau yn y dyfodol.

Penderfynwyd cwblhau'r holiadur.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Cafwyd trafodaeth am yr ysgolion yr ardal.

10. Unrhyw fater arall

- a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru i glirio'r coed sydd wedi disgyn dros lwybr cyhoeddus sydd rhwng Tŷ Cerrig a Bontnewydd.
